Datblygiad ysbrydol a gweithredoedd addoli ar y cyd yn ddyddiol

Yn y llawlyfrau arweiniad ar gyfer arolygu ysgolion, rydym yn gofyn i dimau arolygu ystyried y ddarpariaeth ar gyfer datblygiad ysbrydol disgyblion a gweithredoedd addoli ar y cyd yn ddyddiol o dan 4.2.

Dyma'r adrannau perthnasol er hwylustod:

> *"Dylai arolygwyr ystyried i ba raddau y mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd effeithiol i ddisgyblion ddatblygu gwerthoedd cadarn a sefydlu eu credoau ysbrydol a moesegol. Dylent ystyried pa mor dda y mae'r ysgol yn datblygu gallu disgyblion i fyfyrio ar ymatebion crefyddol ac anghrefyddol i gwestiynau sylfaenol a myfyrio ar eu credoau neu'u gwerthoedd eu hunain. Dylent ystyried pa mor dda y mae'r ysgol yn hyrwyddo egwyddorion sy'n helpu disgyblion i wahaniaethu rhwng yr hyn sy'n gywir ac yn anghywir. Dylent ystyried i ba raddau y mae'r ysgol yn meithrin gwerthoedd, fel gonestrwydd, tegwch, cyfiawnder a chynaliadwyedd, ac yn helpu disgyblion i ddeall anghenion a hawliau pobl eraill, yn lleol ac fel aelodau o fyd eang ac amrywiol."*
>
> *"Gall gweithredoedd addoli a gwasanaethau fod â rhan bwysig yn natblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion. Dylai arolygwyr ystyried gweithredoedd addoli ar y cyd ym mhob ysgol nad ydynt yn darparu addysg enwadol. Dylent ystyried ansawdd gweithredoedd addoli ar y cyd yn eu rhinwedd eu hunain a pha mor dda y mae'r ysgol yn eu cynllunio dros gyfnod. Dylai arolygwyr adrodd ar weithredoedd addoli ar y cyd bob dydd lle maent yn arbennig o dda neu ble maent yn wan neu nid ydynt yn bodloni gofynion statudol."*

Mae'n bwysig cofio bod rhaid i dimau arolygu ystyried yr agweddau hyn ar bob arolygiad ac mae pob adroddiad yn debygol o gynnwys rhywfaint o sylwadau ar yr agweddau hyn ar ddatblygiad disgyblion. Fodd bynnag, nid oes angen i bob adroddiad gynnwys nifer benodol o frawddegau sy'n delio â datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion, ac nid ydym yn disgwyl i arolygwyr adrodd ar yr agweddau hyn mewn ffordd fformiwläig. Lle pob tîm arolygu yw pwyso a mesur arwyddocâd unrhyw gryfderau a gwendidau ym mhob maes arolygu. Mae adran yr arweiniad arolygu ar 'lunio barnau' yn amlinellu'r cyngor canlynol:

> *"Bydd arolygwyr bob amser yn cynnwys arfarniadau clir o ran y gofynion adrodd ym mhob maes arolygu. Byddant hefyd yn ystyried pob agwedd ar y gofynion adrodd hyn fel y maent wedi'u hamlinellu yn y llawlyfr arweiniad arolygu. Fodd bynnag, gallai'r hyn y mae arolygwyr yn adrodd arno ym mhob gofyniad adrodd fod yn wahanol, yn dibynnu ar arwyddocâd cymharol yr hyn y maent yn ei ddarganfod ym mhob ysgol."*

Gallai arolygwyr adrodd ar weithredoedd addoli ar y cyd 'trwy eithriad' hefyd. Mae hyn yn golygu y gallent adrodd ar rai agweddau yn unig lle ceir cryfderau penodol neu wendidau sylweddol.

Felly, nid ydym yn disgwyl adrodd fformiwläig ar b'un a yw ysgol yn cyflawni'r ddyletswydd statudol i ddarparu gweithred addoli ar y cyd bob dydd, ond rydym yn disgwyl i dimau arolygu edrych ar hyn ym mhob arolygiad. Os nad yw'r ysgol yn cyflawni ei dyletswydd statudol yn hyn o beth, yna byddem fel arfer yn disgwyl sylw yn yr adroddiad.

Fodd bynnag, efallai nad effeithir ar y farn ar gyfer MA4 os na fodlonir y ddyletswydd statudol. Mae hyn yn rhywbeth i'r tîm ei ystyried. Bydd angen i'r tîm bwyso a mesur nifer o ffactorau ym mhob achos penodol, er enghraifft nifer y disgyblion y mae'n effeithio arnynt, a bydd rhaid i'r tîm

benderfynu p'un a yw hyn yn arwyddocaol ai peidio, a ph'un a ddylai effeithio ar y farn gyffredinol ar gyfer MA4.

Ni waeth p'un a fydd arolygwyr yn penderfynu adrodd ar addoli ar y cyd ai peidio, rhaid iddynt bob amser adrodd ar ddatblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion.

Spiritual development and daily acts of collective worship

In the guidance handbooks for the inspection of schools, we require inspection teams to consider the provision for pupils' spiritual development and daily acts of collective worship under 4.2. The relevant sections for ease of reference are these:

> *"Inspectors should consider the extent to which the school provides effective opportunities for pupils to develop secure values and to establish their spiritual and ethical beliefs. They should consider how well the school develops pupils' ability to reflect on religious and non-religious responses to fundamental questions and to reflect on their own beliefs or values. They should consider how well the school promotes principles that help pupils to distinguish between right and wrong. They should consider how far the school fosters shared values, such as honesty, fairness, justice and sustainability, and helps pupils to understand the needs and rights of others, both locally and as members of a diverse global world."*
>
> *"Acts of worship and assemblies can play an important part in pupils' spiritual, moral, social and cultural development. Inspectors should consider acts of collective worship in all schools that do not provide denominational education. They should consider the quality of acts of collective worship in their own right and how well the school plans them over time. Inspectors should report on daily acts of collective worship where they are particularly good or where they are weak or do not meet statutory requirements."*

It is important to remember that inspection teams must consider these aspects on each inspection and each report is likely to contain some comment on these aspects of pupils' development. However, each report does not need to contain a set number of sentences dealing with the spiritual, moral, social and cultural development of pupils, and we do not expect inspectors to report on these aspects in a formulaic way. It is up to each inspection team to weigh up the significance of any strengths and weaknesses in each inspection area. The section of the inspection guidance on 'making judgements' sets out the following advice:

> *"Inspectors will always include clear evaluations in relation to the reporting requirements in each inspection area. They will also consider all aspects of these reporting requirements as set out in the inspection guidance handbook. However, what inspectors report on within each reporting requirement may differ depending on the relative significance of what they find in each school."*

Inspectors may also report on acts of collective worship 'by exception'. This means that they may report on some aspects only where there are particular strengths or significant weaknesses. Therefore, we do not expect formulaic reporting on whether a school meets the statutory duty to provide a daily act of collective worship, but we do expect inspection teams to look at this on each inspection. If the school does not meet its statutory duty in this regard then we would normally expect a comment in the report.

However, a failure to meet the statutory duty might not affect the judgement for IA4. This is something for the team to consider. The team will need to weigh up a number of factors in each specific case, such as the number of pupils that it affects, and the team will have to decide whether this is significant or not and whether it should affect the overall judgement for IA4.
Irrespective of whether or not inspectors decide to report on collective worship, they must always report on the spiritual, moral, social and cultural development of pupils.